# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanycil

## Nos Fawrth, Mai 13eg 2025 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen.

Presennol: Rhys Richards (cadeirydd), Huw Charles, Geraint Jones, Rhys Jones, Cyng.Elwyn Edwards a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Gwynfryn Williams, Catrin Chalres, Arwel Davies a Huw Edwards.

**i) Croesawyd y cynghorwyr i'r cyfarfod.**
**Derbyniwyd llythyr gan Catrin Charles yn egluro ei ddymuniad i ymddiswyddo o'r Cyngor. Gofynnwyd i'r clerc anfon air o ddiolch iddi ac i hysbysu Cyngor Gwynedd am y sedd wag ar y Cyngor.**

ii) Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd.
**Etholwyd Rhys Richards yn cadeirydd a Rhys Jones yn is-gadeirydd.**

iii) Cynrychiolwyr ar bwyllgorau:-
Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.

Cwmni Pum Plwy Penllyn: Arwel Davies a Rhys Richards.
Gorff Llywodraethol Ffederasiwn Cysgod y Foel: Rhys Jones.
Cyfarfodydd Lleol yr Heddlu – Arwel Davies a Rhys Richards

iv) Adroddiad Blynyddol y Cyngor – **cymeradwywyd.**

v) Cyfrifon 2024-25 - **cymeradwywyd**

vi) Archwiliad Blynyddol y Cyngor – **roedd trefniadau mewn lle i anfon y dogfennau perthnasol i'r archwilwyr mewnol ac yn ddiweddarach i Archwilio Cymru.**

vii) Gydnabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2025/26 - **cofnodwyd y llythyrau a dderbyniwyd gan y cynghorwyr yn cadarnhau nad oeddynt am hawlio'r cydnabyddiaethau ariannol gorfodol.**

viii) Adolygu Asedau – **adolygwyd y rhestr a chafwyd yn gywir. Cadarnhaodd fod y llochesi bws wedi cael ei archwilio ac nid oedd unrhyw fater i'w drafod.**

ix) Adolygu Polisïau a Rheoliadau'r Cyngor – **cytunwyd i fabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol newydd a dderbyniwyd gan Un Llais Cymru. Adolygwyd gweddill o'r polisiau a chafwyd yn gywir.**